# Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru

## Nodyn yn crynhoi'r cyfarfod

## Dydd Mawrth 15 Hydref 2019, 10:30 – 14:30 yng Nghanolfan Glan yr Afon, Casnewydd

Yn bresennol: Yr Arglwydd Burns (TB), Lynn Sloman (LS), Elaine Seagriff (ES), James Davies (JD), Beverly Owen (BO), Stephen Gifford (SG) a Jen Heal (JH)

Ymddiheuriadau i'r Comisiwn: Peter Jones (PJ)

Ysgrifenyddiaeth: Peter McDonald (PMc), Matt Jones (MJ) ac Alex Theophilus (AT)

Eraill a oedd yn bresennol: Gareth Potter, Trafnidiaeth Cymru

### 1. Cyflwyniadau a dull o weithio

Mae'r Comisiwn yn chwilio am opsiynau eraill i leihau tagfeydd ar yr M4, yn sgil penderfyniad Prif Weinidog Cymru i beidio â pharhau â'r 'Llwybr Du'. Nid dim ond tagfeydd a thrafnidiaeth bydd y Comisiwn yn eu hystyried, ond bydd hefyd yn ystyried y materion economaidd-gymdeithasol ehangach yn ardal de-ddwyrain Cymru. Yn eu hanfod, diben yr ymyriadau yw gwella bywydau pobl.

Gwnaeth y Comisiwn drafod ei fwriad i argymell nifer o ymyriadau mewn pecyn o fesurau. Byddai'n bwysig i'r ymyriadau ymdrin â’r tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor. Hefyd, dylid eu profi yn erbyn senarios gwahanol i gadarnhau eu bod wedi'u diogelu at y dyfodol.

Bydd diweddariad yn cael ei roi i Weinidogion erbyn y Nadolig. Bydd hyn yn cynnwys rhai mesurau i’w gweithredu’n gyflym ar gyfer y system drafnidiaeth bresennol, yn enwedig yr M4. Bydd y diweddariad chwe mis yn ystod y gwanwyn yn cynnwys adroddiad interim llawn. Bydd yr argymhellion terfynol yn dilyn mewn tua 12 mis.

Gwnaeth y Comisiwn gytuno ar gyhoeddi ei ddogfen gyntaf – ‘Ein Dull o Weithio'.

### 2. Dadansoddiad Traffig a Chwestiynau Allweddol

Gwnaeth y Comisiwn drafod y cwestiynau penodol roedd yn dymuno eu hateb er mwyn deall y broblem a gosod amcanion ar gyfer ymyriadau.

Mae angen i'r Comisiwn ddeall achosion tagfeydd ac ymyriadau a allai oresgyn y rhain.

Edrychwyd ar y dadansoddiad traffig cychwynnol. Roedd y dadansoddiad o'r ffordd yn ystyried y llif traffig tua'r dwyrain a'r gorllewin fel pe baent, i bob pwrpas, yn ddwy ffordd wahanol ar wahân. Cafodd amrywiaeth o waith dadansoddi pellach ei gomisiynu.

Gallai topograffi de Cymru olygu y bydd yn anodd adeiladu seilwaith, nid dim ond ar hyd coridor yr M4. Gwnaeth y Comisiwn drafod sut y gall trafnidiaeth gyhoeddus aml-

ddull sy’n dda ac yn ddibynadwy a seilwaith teithio llesol helpu i leihau tagfeydd, yn ogystal â gwella'r rhwydwaith ffyrdd.

Hoffai'r Comisiwn ystyried sut mae trafnidiaeth yn cael ei chynllunio a'i dylunio mewn gwledydd eraill.

### 3. Grwpiau rhanddeiliaid allweddol

Gwnaeth yr Ysgrifenyddiaeth esbonio'r amrywiaeth o opsiynau ar gyfer trafod â rhanddeiliaid, gan gynnwys aelodau o'r cyhoedd (yn arbennig y rhai sy'n teithio yn yr ardal). Gwnaeth y Comisiwn gytuno i ddechrau ar y gwaith trafod yn fuan ac roedd yn rhoi pwyslais arbennig ar drafod â theithwyr mewn lleoliadau allweddol, megis gweithleoedd, ysbytai neu gyfnewidfeydd trafnidiaeth.

### 4. Argymhellion i’w gweithredu’n gyflym

Gwnaeth y Comisiwn drafod y broses o lunio argymhellion i’w gweithredu’n gyflym, fel y disgrifir yn y ddogfen Dull o weithio. Bydd rhestr hir yn cael ei gwerthuso yn y cyfarfod nesaf, gyda'r bwriad o gynnwys argymhellion mewn diweddariad i Weinidogion Cymru erbyn diwedd eleni. Gwnaeth y Comisiwn gytuno i gasglu safbwyntiau rhanddeiliaid cyn gynted â phosibl.

### 5. Y cyfarfod nesaf

Bydd y Comisiwn yn cyfarfod unwaith y mis, gan ffafrio cyfarfodydd mewn gwahanol rannau o dde-ddwyrain Cymru. Bydd nodyn yn crynhoi'r cyfarfod yn cael ei lunio a'i gyhoeddi ar gyfer pob cyfarfod.

Bydd y Comisiwn yn cyfarfod eto ddechrau mis Tachwedd.